Strategaeth Partneriaeth Awyr-agored Gogledd Orllewin Cymru (2008 – 2013)

Ein Gweledigaeth

Creu Cymru egniol, iach a chynhwysol, lle mae hamdden awyr-agored yn darparu llwyfan cyffredin ar gyfer cyfranogiad, hwyl, cyflawniad a chyflogaeth, sy'n clymu cymunedau lleol at ei gilydd, yn gwneud defnydd cynaliadwy a chreu dealltwriaeth o'r amgylchedd.

PARTNERIAETH AWYR-AGORED
Profiad • Mwynhau • Llwyddo
Experience • Enjoy • Achieve
OUTDOOR PARTNERSHIP

Ein Cenhadaeth

Gwella cyfleoedd i fwy o bobl leol yng Ngogledd Orllewin Cymru gyflawni eu potensial trwy weithgareddau awyr-agored.

Y Bartneriaeth Awyr-agored:
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Plas Menai, Plas y Brenin, Canolfan Conway, Gwasanaeth Addysg Awyr-agored Gogledd Ddwyrain Cymru, Nant Bwlch yr Haearn, Hyfforddi Arweinwyr Mynydda Cymru, Eryri Bywiol, Prifysgol Cymru Bangor, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Urdd Gobaith Cymru.

Cynnwys

Adran	Pwnc	Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Cyd-destun Strategol	4
3	Y Sefyllfa Bresennol	5
4	Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?	8
5	Arolwg o Gyflawniadau a Heriau	10
6	Amgylcheddau Strategol ac Amcanion	12
	• Clybiau	12
	• Gwirfoddolwyr	13
	• Cysylltiadau rhwng Ysgolion a'r Gymuned	14
	• Marchnata	15
	• Darparu a mentora	16
	• Gyrfaoedd awyr-agored	17
	• Diwylliannol ac ieithyddol	18
7	Y camau nesaf	19

1. Cyflwyniad

Ffurfiwyd Partneriaeth Awyr-agored Gogledd Orllewin Cymru ("y Bartneriaeth") yn 2004 i gyflawni'r weledigaeth o *"hamdden awyr-agored yn darparu llwyfan cyffredin ar gyfer cyfranogiad, hwyl, cyflawniad a chyflogaeth, sy'n clymu cymunedau lleol at ei gilydd, yn gwneud defnydd cynaliadwy a chreu dealltwriaeth o'r amgylchedd."*

Roedd sefydlu'r Bartneriaeth yn cydnabod na ellid gwireddu'r weledigaeth dros nos. Byddai gwaith y Bartneriaeth yn seiliedig ar newid dros genhedlaeth er mwyn sicrhau bod y budd a all ddeillio o weithgareddau awyr-agored yn ymwreiddio yn niwylliant Gogledd Orllewin Cymru, o safbwynt cymdeithasol, iechyd, chwaraeon a'r economi.

Yn ystod ei thair blynedd gyntaf cafodd y Bartneriaeth cymhorthdal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn cael ei weinyddu gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Roedd y cymhorthdal yn caniatáu i ni gyflogi rheolwr prosiect a 3 o swyddogion datblygu a oedd yn cael eu cyllido'n rhannol gan y tri awdurdod lleol ac yn cael eu cefnogi gan y partneriaid eraill. Mae'r swyddogion datblygu wedi gweithio o fewn eu cymunedau i gyflawni gweledigaeth y Bartneriaeth.

Mae ardal ddaearyddol y Bartneriaeth yn cynnwys tair Sir gogledd orllewin Cymru (Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn). Mae gan yr ardaloedd hyn gyfoeth o adnoddau naturiol; sector awyr-agored datblygedig; nodweddion diwylliannol ac ieithyddol cyffredin a chymunedau sy'n wynebu heriau cymdeithasol, economaidd ac iechyd.

Mae'r Bartneriaeth yn mynegi'r awydd i achosi newid cadarnhaol a fydd yn creu budd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac iechyd. Mae'r Bartneriaeth yn cofleidio egwyddorion Adroddiad Beecham "*Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd*" – trwy weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella yn barhaus ein gwasanaethau effeithlon lleol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae aelodau'r Bartneriaeth yn ymrwymedig i fuddsoddi'n briodol er mwyn gwireddu'r weledigaeth trwy hyfforddi, cefnogi gwirfoddolwyr, cyllido, rhoi cyngor technegol, marchnata a chyflawni.

Yn ei hanfod mae'r Bartneriaeth yn rhaglen ddatblygu a all anelu at fodelau cynaliadwy o ddarparu ond fel yn achos unrhyw ddatblygiad chwaraeon, mae angen buddsoddiad gan asiantaethau sydd â chyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau i gymunedau er mwyn gwella bywyd y bobl sy'n byw yno.

2. Y Cyd-destun Strategol

Mae datblygiad y Bartneriaeth dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac wrth edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf (a thu hwnt), y mae'r Bartneriaeth yn tynnu o nifer o strategaethau ac adroddiadau cenedlaethol a lleol gan gynnwys:

- **"Cymru'n Un – *Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru"*** Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008).
  'Cysylltu â Cymru'n Un/One Wales

- **"Adroddiad Beecham** "*Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd"*
  Cysylltu ag Adroddiad Beecham/Report

- **"Comisiwn Russell"** (2005)
  Cysylltu i Lawrlwytho Adroddiad Comisiwn Russell Commission Report

- **"Dringo'n Uwch"** Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005)
  'Cysylltu â Dringo'n Uwch/Climbing Higher

- **"Dringo'n Uwch – Y Camau Nesaf"** Cyngor Chwaraeon Cymru (2006).
  'Cysylltu â'r Camau Nesaf/Next Steps

- **"Parchu – Diogelu– Mwynhau"** Cod Cefn Gwlad – Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2004).
  'Cysylltu â'r Cod Cefn Gwlad/Countryside Code

- **"Dysgu Byw'n Wahanol"** – *Newid yn yr Hinsawdd Cymru*: Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001)
- **"Dechrau Byw'n Wahanol"** – *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy* (2006).
  Cysylltu â Briff Ymchwil yr Amgylchedd/Environment Research Briefing

- **"Yr Economi Bywiol"**– Eryri Bywiol (2004)
  Cysylltu â Thudalen Hafan Eryri Bywiol/Snowdonia-active Home Page

- **"Cyngor Chwaraeon Cymru – Diweddariad Chwaraeon 63"** (Gorffennaf 2007)
  Cysylltu â Diweddariad Chwaraeon/Sports Update 63

- **Strategaethau sirol (gan gynnwys chwaraeon, adloniant, diwylliant, adfywio, twristiaeth a datblygu economaidd)** (Ynys Môn, Conwy a Gwynedd)
  Cysylltu ag Addysg a Hamdden Ynys Môn/Anglesey Education & Leisure
  Cysylltu â Hamdden a Diwylliant Conwy/Leisure and Culture
  Cysylltu â Hamdden a Diwylliant Gwynedd/Leisure and Culture

- **Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru** – Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ymgynghoriad 2008) Cysylltu â Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth/Skills and Employment Strategy

- **Gwefan y Bartneriaeth Awyr-agored** 'Cysylltu â'r Bartneriaeth Awyr-agored/Outdoor Partnership

3. Y Sefyllfa Bresennol

Amcangyfrifir bod y diwydiant awyr-agored yn cyfrannu dros £140 miliwn i economi leol gogledd orllewin Cymru (Eryri Bywiol, "Yr Economi Bywiol" 2004). Mae llawer o'r cyfoeth hwnnw'n cael ei gynhyrchu gan dwristiaid sy'n defnyddio'r cyfleusterau naturiol o ansawdd byd-eang sydd gennym yng Ngogledd Cymru.

Mae Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer canŵio, hwylio a mynydda yng Nghymru wedi eu lleoli yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae gan yr ardal strwythur o glybiau sy'n darparu ar gyfer chwaraeon unigol ac ar gyfer gwahanol chwaraeon awyr-agored. Yn ddiweddar, y mae'r rhain wedi bod yn darparu gweithgareddau ar gyfer dechreuwyr a dysgwyr ifanc. Mae ysgolion, Urdd Gobaith Cymru, y Sgowtiaid, y Geidiaid, Cadlanciau a chlybiau ieuenctid lleol yn cyflwyno profiadau cychwynnol o'r gweithgareddau. Mae tair Canolfan Awyr-agored Genedlaethol yn yr ardal sef Plas Menai, Plas y Brenin a Chanolfan Tryweryn.

Yn y sector awyr-agored ar hyn o bryd, mae lefel cyfranogiad pobl ifanc leol yn isel. Mae llai byth o bobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn cymryd rhan er bod gan lawer ohonynt fynediad uniongyrchol i'r cyfleusterau naturiol. Mae hyn yn golygu bod llai o hyfforddwyr a staff rheoli Cymraeg ar gael i'w cyflogi mewn busnesau awyr-agored. Gan hynny mae proffil cyflogaeth y sector awyr-agored yn anghytbwys. Dim ond 7% o'r hyfforddwyr llawn amser yng Nghanolfan Awyr-agored Gogledd Orllewin Cymru oedd wedi cael eu haddysg uwchradd yn yr ardal, o gymharu â 67% o staff cymorth (gweithwyr gweinyddol, glanhawyr a chogyddion). Dim ond 4% o'r hyfforddwyr llawn amser sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. (Ymchwil y Bartneriaeth - 2005).

Mae ymchwil a wnaethpwyd gan Brifysgol Cymru, Bangor yn dangos bod y sector yn cael ei ddatblygu i raddau helaeth gan bobl sydd wedi symud i mewn i'r ardal. Mae hyn yn creu risg i'r iaith, diwylliant a threftadaeth lleol gan achosi ymdeimlad o alltudiaeth ymhlith pobl leol. Mae hynny'n creu "cylch dieflig o safbwynt diwylliant", gyda lefel isel o gyfranogiad pobl leol yn achosi lefelau isel o gyflogaeth leol - mae hynny'n golygu bod llai o bobl leol yn cael eu penodi, ac felly llai o bobl leol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr-agored.

Mae strategaeth "Dringo'n Uwch" Llywodraeth y Cynulliad yn gosod targed 20 mlynedd i bob plentyn oed ysgol gynradd (Targed 2) a 90% o blant oed ysgol uwchradd (Targed 3) i wneud chwedeg munud o weithgarwch corfforol bum diwrnod yr wythnos (5x60). Yn 2006 roedd 51% o blant oed ysgol yng Ngogledd Cymru Wledig yn cyflawni'r targed – o gymharu â 44% trwy Gymru. Er bod bechgyn yn fwy tebygol o fod yn ddigon gweithgar, mae o leiaf 10% o fechgyn a merched yn cael eu dynodi yn anweithgar. Mae nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau tu allan i'r ysgol wedi codi i 63% ac mae nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau tu allan i'r ysgol yn codi fel y maent yn mynd yn hŷn.

Mae tystiolaeth anecdotaidd a gasglwyd oddi wrth y swyddogion 5 x 60 a gyflogir yn y tair sir yn dangos bod gweithgareddau awyr-agored yn llawer mwy

poblogaidd ymhlith plant ysgol uwchradd nag yw chwaraeon confensiynol ysgolion. Mae hyn wedi creu galw am gefnogaeth i ddarparu gweithgareddau awyr-agored fel rhan o'r cwricwlwm ac yn allgyrsiol.

Mae Dringo'n Uwch yn gosod targed 20 mlynedd i 60% o bobl Cymru ddefnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr-agored (Targed 10). Mae nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau antur awyr-agored wedi cynyddu (yng Nghymru) o 25% i 29% ers 2004. Yn ystod yr un cyfnod mae'r defnydd o ganolfannau hamdden pob chwaraeon wedi aros oddeutu 85/84% ac mae'r defnydd o ganolfannau hamdden traddodiadol wedi syrthio ychydig i 55%. O gael ei drin yn briodol, mae'r amgylchedd naturiol yn rhoi gwerth am arian o gymharu â'r amgylchedd "hamdden adeiledig", sy'n dechrau dangos ei oed erbyn hyn, ac mae gwell cyfle ar gyfer cynnydd corfforol a diwylliannol.

Mae'n arwyddocaol mai pump o'r saith amgylchedd mwyaf poblogaidd i blant gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau oedd yr amgylcheddau lle gall gweithgareddau awyr-agored ffynnu sef pyllau nofio (85%), parciau (74%), caeau chwarae (64%), caeau chwarae ysgolion (44%) a chanolfannau gweithgareddau awyr-agored (39%). (Ffynhonnell: Cyngor Chwaraeon Cymru, Diweddariad Chwaraeon 63).

Mae Dringo'n Uwch, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol wedi gosod targed (Rhif 9) i bob plentyn yng Nghymru, yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, fod wedi cael profiad o weithgaredd antur awyr-agored cyn eu bod yn 12 oed ac un arall cyn ei bod yn 16 oed. Mae'r bartneriaeth mewn sefyllfa ddelfrydol i ddatblygu model a fydd yn manteisio i'r eithaf ar y llwybrau sy'n bodoli rhwng ysgolion a'r gymuned, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn dal i gyfranogi ar ôl eu profiad cyntaf.

Ar gyfer oedolion, mae gweithgarwch corfforol "hybu iechyd" yn cael ei ddiffinio fel 30 munud y dydd o weithgarwch rhesymol ddwys, 5 diwrnod yr wythnos (5x30). Mae arolygon i gefnogi strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yng Ngogledd Cymru yn dangos nad yw 72% o oedolion yn cyflawni'r lleiafswm hwn a argymhellir. Yn wahanol i chwaraeon traddodiadol mae gweithgareddau awyr-agored megis cerdded a chwaraeon dŵr yn rhai sy'n cael effaith "llai trawiadol", a gellir dal ati pan ydych yn hŷn. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniadau pwysig i gadw pobl yn iach yn hirach trwy ddatblygu balans (gan achosi llai o godymau) a chadw dwysedd yr esgyrn (fel nad yw pobl yn torri eu hesgyrn gymaint).

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr-agored yn arbennig o effeithiol o ran datblygu nifer o sgiliau bywyd sy'n hybu dinasyddiaeth dda. Mae dinasyddion da yn fwy tebygol o dderbyn cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain ac am fod yn rôl fodelau a all annog pobl eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Trwy gymryd rhan mae pobl yn dod i ddibynnu mwy arnynt eu hunain, yn gweithio'n well fel tîm, yn dysgu cydweithredu a sut i gynllunio ymlaen llaw, gosod targedau realistig a chyraeddadwy a rheoli risg. Profwyd bod y meysydd datblygu hyn yn cael effaith ar ddatblygiad personol ac yn gwella hunan-barch.

O fewn y cwricwlwm addysg ffurfiol mae'r sgiliau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at:

- elfen Dysgu Awyr-agored y Cyfnod Sylfaen
- y Cwricwlwm Addysg Gorfforol yng Nghyfnodau Allweddol 2 – 4 lle mae gweithgareddau antur yn elfen orfodol yng nghyfnodau 2 a 3
- craidd dysgu'r strategaeth Llwybrau Dysgu 14 – 19
- y Fframwaith Sgiliau
- y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Diplomâu Prentisiaeth Fodern mewn gweithgareddau awyr-agored

Yn gynyddol, mae'r amgylchedd addysg ffurfiol yn ymateb i'r angen i gynyddu sgiliau a gweithgarwch economaidd yng Nghymru. Llwyddodd arolwg Leitch o Sgiliau yn y Deyrnas Unedig ac Adroddiad Webb ynglŷn â chenhadaeth a diben addysg bellach (Addewid a Pherfformiad) i roi ffocws ar yr anghenion yng Nghymru, ac ar ei hadnoddau naturiol. Mae'r "Strategaeth Sgiliau Bywyd" a ddeilliodd ohonynt yn nodi'r angen i bob corff sy'n gysylltiedig ag addysg a sgiliau weithio gyda'i gilydd, gan gynnwys sefydliadau proffesiynol sy'n cefnogi sgiliau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae llawer o wasanaethau cymunedol yn dibynnu ar gymorth gwirfoddolwyr. Amcangyfrifir bod 24% o'r holl wirfoddolwyr yn cefnogi chwaraeon a gweithgareddau adloniant a hamdden mewn rhyw ffurf. Yn 2006 mabwysiadodd Llywodraeth y Cynulliad argymhellion y Comisiwn Russell a oedd yn anelu at roi pobl ifanc wrth galon gwirfoddoli, a gwneud gwirfoddoli yn beth cyffredin i bobl ifanc. Er mwyn sicrhau diogelwch a llwyddiant mentrau o'r fath mae angen cefnogaeth ac arweiniad. Mae'r Bartneriaeth mewn sefyllfa dda i ddarparu datblygiad cynaliadwy i bartneriaid trwy roi cyngor, arweiniad a chefnogaeth.

Ar hyn o bryd mae Gweithgareddau Awyr-agored yn cefnogi o leiaf 8,400 o swyddi yn ardal y Bartneriaeth, sef 6% o holl gyflogaeth yr ardal. Mae'r swyddi'n amrywio o swyddi hyfforddi a rheolaeth i goginio, cynnal a chadw a marchnata. (Eryri Bywiol: "Yr Economi Bywiol" 2004). O dan gyfarwyddyd cyrff anllywodraethol, cyrff proffesiynol a chyrff masnachol mae llawer o hyfforddi ac asesu proffesiynol yn digwydd yn y rhanbarth. Mae'r sector ehangach yn gysylltiedig â nifer o "swyddi ategol" megis newyddiaduraeth, ffotograffiaeth, dylunio, dillad a gweithgynhyrchu offer technegol.

Oherwydd natur ddaearyddol yr ardal mae nifer sylweddol o swyddi rheolaeth cefn gwlad yn cefnogi gweithgareddau asiantaethau fel Parc Cenedlaethol Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Croeso Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, a sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae'r ffaith bod cyn lleied o bobl leol yn cymryd rhan yn golygu mai ychydig iawn ohonynt sydd â'r cefndir priodol i wneud cais am y swyddi hynny.

4. Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?

Bob blwyddyn am y tair blynedd ddiwethaf mae'r Bartneriaeth wedi cynnal arolwg perfformiad manwl. Gallwch weld manylion pob arolwg ar wefan y Bartneriaeth www.partneriaethawyragored.co.uk . Mae crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd yn y tablau isod (yn erbyn targedau lle bo'n berthnasol)

Cyfathrebu / Rhwydweithio	**2005/06 Gwirioneddol (targed)**	**2006/07 Gwirioneddol (targed)**	**2007/08 hyd at Fai 08 (targed)**
Niferoedd y cysylltiadau a grëwyd rhwng ysgolion/grwpiau ieuenctid a chanolfannau/darparwyr addysg awyr-agored	34 (30)	92 (18)	12 (90)
Niferoedd y Fforymau Awyr-agored a gynhaliwyd	3 (3)	5 (3)	5 (5)

Sylfaen	**2005/06 Gwirioneddol (targed)**	**2006/07 Gwirioneddol (targed)**	**2007/08 hyd at Fai 08 (targed)**
Niferoedd y rhaglenni a'r digwyddiadau egnïol a drefnwyd	70 (30)	90 (30)	43 (100)
Cyfranogiad oedolion	ddim yn berthnasol	307 (240)	128 (400)
Cyfranogiad bechgyn iau mewn gweithgareddau newydd (cwricwlaidd ac allgyrsiol) dan 11 a dan 18	ddim yn berthnasol	1696 (450)	734 (1750)
Cyfranogiad merched iau mewn gweithgareddau newydd (cwricwlaidd ac allgyrsiol) dan 11 a dan 18	ddim yn berthnasol	1470 (450)	732 (1750)

Cyfranogiad	**2005/06 Gwirioneddol (targed)**	**2006/07 Gwirioneddol (targed)**	**2007/08 hyd at Fai 08 (targed)**
Nifer y clybiau gweithgareddau awyr-agored cymunedol a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn	8 (6)	10 (9)	5 (6)
Cyfanswm cyfranogiad oedolion mewn clybiau newydd	Yn y ffigur uchod	273 (150)	350 (300)
Cyfanswm cyfranogiad pobl iau mewn clybiau newydd	Yn y ffigur uchod	437 (200)	761 (650)

Cyflawni Potensial	**2005/06 Gwirioneddol (targed)**	**2006/07 Gwirioneddol (targed)**	**2007/08 hyd at Fai 08 (targed)**
Nifer y cyfleoedd gwella a chyfleoedd i gystadlu a ddarparwyd	16 (2)	15 (15)	1 (15)
Oedolion a fanteisiodd ar gyfleoedd i wella/cystadlu	ddim yn berthnasol	87 (50)	34 (100)
Pobl iau a fanteisiodd ar gyfleoedd i wella/cystadlu	ddim yn berthnasol	395 (300)	20 (400)

Arweinyddiaeth a Hyfforddiant	**2005/06 Gwirioneddol (targed)**	**2006/07 Gwirioneddol (targed)**	**2007/08 hyd at Fai 08**

			(targed)
Niferoedd sy'n gweithio tuag at gymwysterau arweinyddiaeth perthnasol.	82 (12)	135 (36)	200 (100)
Nifer yr hyfforddwyr /arweinwyr cymwysedig newydd	29	65 (8)	132 (100)
Nifer yr hyfforddwyr/arweinwyr mewn clybiau Partneriaeth Awyr-agored Gogledd Orllewin Cymru	44 (12)	93 (55)	n/a

Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	**2005/06 Gwirioneddol (targed)**	**2006/07 Gwirioneddol (targed)**	**2007/08 hyd at Fai 08 (targed)**
Nifer y cyfleoedd hyfforddi/arweinyddiaeth a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg.	2 (2)	5 (3)	10 (10)

Cyflogi pobl leol	**2005/06 Gwirioneddol (targed)**	**2006/07 Gwirioneddol (targed)**	**2007/08 hyd at Fai 08 (targed)**
Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n gysylltiedig â chanolfannau awyr-agored lleol mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru.	6 (6)	5 (6)	6 (6)
Nifer y disgyblion sy'n mynychu gweithdai Gyrfa Cymru	14	409 (120)	379 (600)
Nifer y cyfleoedd profiad gwaith newydd a grëwyd.	10	12 (6)	6 (36)

<u>Yn ychwanegol at yr uchod y mae'r Bartneriaeth wedi</u>

- Penodi Uwch Reolwr Prosiect llawn amser (cyllidir trwy gymhorthdal gyda chyfraniadau gan y bartneriaeth).
- Penodi 3 Swyddog Datblygu Awyr-agored llawn amser (cyllidir trwy gymhorthdal gyda chyfraniadau gan y bartneriaeth).
- Creu cronfa ddata o arweinyddion a hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith. Mae'r gwaith hwn yn dal i fod ar y gweill.
- Creu terminoleg Gymraeg ar gyfer gweithgareddau awyr-agored mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r gwaith hwn yn dal i fod ar y gweill.
- Datblygu a chynnal gwefan ddwyieithog.
- Creu papur newydd electronig.
- Creu a dosbarthu amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd.
- Ennill, gweinyddu a dosbarthu grantiau ar ran prosiectau cymunedol (£286,159 yn 2006/07).
- Sefydlu hygrededd sydd wedi bod yn help i gael cyllid o ffynonellau allanol.

5. Arolwg o Gyflwyniadau a Heriau

Ym mis Ebrill gwnaeth y Bartneriaeth arolwg o'u rhanddeiliaid. Gwnaethpwyd yr arolwg yn erbyn cefndir o golli'r cyllid craidd cyfredol o fis Mawrth 2009. Hefyd mae'r darparwyr sector cyhoeddus yn wynebu pwysau parhaus a chynyddol ar eu cyllidebau gyda pherygl y byddai cyfyngu ar gyllid y bartneriaeth dros y tair blynedd nesaf. Mae perthynas symbiotig yn bodoli rhwng y cyllid craidd a chyllid y bartneriaeth - heb y naill mae'n fwy anodd ennill a chadw'r llall.

Penodwyd hwylusydd annibynnol i ymgymryd â'r arolwg gyda golwg ar weld beth oedd wedi gweithio a pheidio, y gwersi a ddysgwyd, y blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf a chynllun gweithredu ar gyfer dyfeisio strategaeth ar gyfer y cyfnod nesaf (sef y ddogfen hon).

<u>Dangosodd yr arolwg fod y llwyddiannau canlynol wedi cael eu cyflawni</u>

- Cynllunio cadarnhaol o amgylch cyfleoedd yn y sector awyr-agored yn arbennig yn sgil effeithiau clwy'r traed a'r genau yn 2001.
- Dod â phobl unfryd at ei gilydd i ddatblygu gweledigaeth strategol.
- Dechrau troi'r weledigaeth honno yn realiti.
- Hybu gweithgareddau awyr-agored ymhlith pobl leol gydag un llais yn cwmpasu angerdd, brwdfrydedd, dyfalbarhad ac ewyllys gwleidyddol.
- Credu yn eu hunain a deall eu hunain o ganlyniad i gefnogaeth Gweinidogion a chynhaliaeth gan Gyngor Chwaraeon Cymru.
- Penodi pedwar swyddog brwdfrydig yn ymwneud yn benodol â gweithgareddau awyr-agored trwy gyllid partneriaeth a chraidd.
- Rhaglen gydgysylltiedig o weithgareddau ar draws ardal y Bartneriaeth ac ar gael i gyfranogwyr, darpar hyfforddwyr a gwirfoddolwyr.
- Datblygu clybiau gyda chyngor arbenigol ar gyllid a llywodraethu (er enghraifft Clwb Antur Dyffryn Peris a Caiacwyr Cybi)
- Datblygu gwirfoddoli, cyngor ac ymroddiad.
- Gwyliau Cyfeiriannu yng Nghonwy a Gwynedd.
- Cychwyn ar y gwaith o ddatblygu'r "Wobr Awyr-agored".
- Cael pobl leol i ddilyn a datblygu cyfleoedd awyr-agored strwythuredig er mwyn cynnal eu cyfranogiad (gan gynnwys mynediad i ganolfannau awyr agored lle mae offer, cyngor ac arbenigedd).

<u>Yr heriau mwyaf a wynebwyd gan y Bartneriaeth oedd</u>

- Cynnydd araf (dim ond newydd ddechrau yr oedd y prosiect) a disgwyliadau ac amserlenni afrealistig.
- Ansicrwydd cyllidol y bartneriaeth
- Model bregus o gynaliadwyaeth ac angen cynyddu nifer aelodau'r clybiau (cyfranogwyr, cynghorwyr, mentoriaid, gwirfoddolwyr).
- Yr angen am drafodaethau ar y cyd yn y bartneriaeth rhwng clybiau a darparwyr yswiriant (yn arbennig ar gyfer clybiau sy'n cynnal gwahanol weithgareddau).
- Yr angen am fodel datblygu y gellir ei ddyblygu mewn ardaloedd eraill ar lefel sylfaenol / cychwynnol.
- Darparu ar gyfer heriau daearyddol

  - Mewn ardaloedd gwledig sydd â phoblogaeth denau
  - Lle mae'r canolfannau poblogaeth wedi eu gwahanu oddi wrth "gyfleusterau awyr-agored".
- O fewn y cyfnod cymharol fyr sydd dan sylw, prin oedd yr ymgysylltiad gyda "llwybrau addysgu" a'r mentrau hyfforddi strwythuredig a ddatblygwyd.
- Dealltwriaeth gyfyngedig o'r cyflawniadau ac o'r angen i hyrwyddo'r cyfleoedd helaeth y mae gweithgareddau awyr-agored yn eu cynnig i bobl yng Nghymru.
- Nifer cyfyngedig o oedolion oedd yn gwirfoddoli, gyda'r cymwysterau priodol i ddarparu ar gyfer y galw sydd heb gael ei sylweddoli yn ein cymunedau.

<u>Gwersi at y dyfodol. Fe gododd y themâu cyffredinol canlynol o'r arolwg</u>

- **Canolbwyntio'n gliriach ar flaenoriaethau** hynny yw beth, yn realistig, y mae'r prosiect yn debygol o allu ei gyflawni
- **Canolbwyntio ar y clybiau** gan gynyddu'r gallu i gefnogi ac annog gwirfoddolwyr trwy ddarparu cyngor, cyllid, cyfleusterau a mynediad.
- **Gweithio'n agosach gyda'r sector addysg** oherwydd y newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm sy'n ymwneud ag antur awyr-agored a'r cyswllt rhwng ysgol a chymuned.
- **Gwella marchnata** er mwyn codi ymwybyddiaeth a dathlu llwyddiannau gan gynnwys sefydlu'r Wobr Partneriaeth Awyr-agored.
- **Datblygu model o ddarparu** y gellir ei fabwysiadu mewn rhannau eraill o Gymru, yn canolbwyntio ar gyfranogiad ar lefel sylfaenol a darpariaeth leol (hynny yw, ni fyddai'n dibynnu ar nodweddion daearyddol unigryw).
- **Canfod ffynonellau cyllidol** ar gyfer pob maes o waith y Bartneriaeth - iechyd, addysg, hyfforddiant, chwaraeon, twristiaeth, cyflogaeth, adfywio economaidd, diwylliant ac iaith (hynny yw, peidio â dibynnu ar un ffynhonnell gyllidol) a cheisio manteisio ar lwybrau newydd o gyllido (er enghraifft Cronfa Gydgyfeirio; themâu cyllido'r Loteri Genedlaethol; a Chytundebau Partneriaeth Awdurdodau Lleol).
- **Gwella'r cynllunio** yn arbennig ar gyfer cyllid yn y dyfodol; blaenoriaethau allweddol; meini prawf llwyddiant.

6. Amgylcheddau Strategol ac Amcanion ar gyfer 2008 - 2013

1. Datblygu model cynaliadwy o glwb awyr-agored.

Mae clybiau'n cyfrannu arbenigedd, cefnogaeth a diogelwch. Maent yn rhoi ffocws i reoli adnoddau yn effeithiol, gan gynnwys offer a chefnogaeth gwirfoddolwyr – yn arbennig felly yn achos clybiau sy'n cynnig gwahanol chwaraeon. Mae clybiau yn creu awyrgylch cymdeithasol i grwpiau cyfoed ac yn ymestyn cyfleoedd ar draws pob grŵp oedran, rhyw a grŵp ethnig.

a. Datblygu "Marc Safon ar gyfer Clybiau Awyr-agored" erbyn mis Medi 2010
b. Canolbwyntio ar gynyddu aelodaeth clybiau presennol
c. Cymryd trosolwg strategol o'r clybiau presennol er mwyn canfod pa glybiau newydd sydd eu hangen a'r posibiliadau o gyfuno trwy glybiau a rhwydweithiau aml-chwaraeon.
d. Darparu cefnogaeth mentoriaid i glybiau trwy gyfrwng staff datblygu awyr-agored.
e. Nodi atebion i broblemau yswiriant ar gyfer clybiau aml-chwaraeon awyr-agored
f. Darparu cefnogaeth barhaus i glybiau awyr-agored er mwyn eu gwneud yn fwy hyfyw a chynaliadwy.
g. Datblygu a gwreiddio fforymau awyr-agored ym mhob sir.
h. Datblygu canllawiau arferion gorau mewn cydweithrediad â Chyrff Anllywodraethol ac asiantaethau cenedlaethol.
i. Datblygu model i gydnabod cyfraniad "canolfannau gweithgareddau awyr-agored" i'r Bartneriaeth.

<u>Partneriaid Posibl:</u>

- Awdurdodau Lleol
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Canolfannau awyr-agored
- Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Chwaraeon Cymru
- Athrofa Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru

2. Cydnabod gwerth gweithgareddau awyr-agored a chynyddu gallu gwirfoddolwyr.

Mae gwirfoddolwyr yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau cymunedol. Mae angen iddynt gael hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn darparu gweithgareddau diogel o ansawdd uchel mewn ffordd ddeallus a chyson. Rhaid i wirfoddolwyr yn y maes ennill sgiliau arbennig sydd gan amlaf yn dod o brofiad dros gyfnod o amser. Mae gwirfoddolwyr yn haeddu cydnabyddiaeth a fydd, yn ei dro, yn hybu gwerth gwirfoddoli.

a. Datblygu canllawiau arferion gorau ar gyfer “cyflogi” gwirfoddolwyr yn yr amgylchedd awyr-agored.
b. Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddolwyr ennill cymwysterau cydnabyddedig a pherthnasol.
c. Datblygu “gwobr gwirfoddolwyr” i gydnabod ymroddiad, gwybodaeth a diogelwch.
d. Darparu cefnogaeth mentor i wirfoddolwyr.
e. Asesu’r angen i gymhwyso gwirfoddolwyr ar lefel 2 er mwyn cefnogi mwy nag un clwb/gweithgarwch.

<u>Partneriaid Posibl:</u>

- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Awdurdodau lleol
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol
- Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol
- SportActive
- Canolfannau awyr-agored
- Cymdeithas Chwaraeon Cymru
- Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri

3. Creu cysylltiadau rhwng ysgolion a chlybiau yn y gymuned.

Bydd profiadau antur awyr-agored yn dod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ysgol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 o 2008. Mae cyfle i gefnogi'r gofyniad hwn a hybu "llwybrau allan" i glybiau cymunedol lle gellir sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei wreiddio fel gweithgarwch hirdymor.

a. Sicrhau bod gweithgareddau awyr-agored yn cael eu dynodi ym mhob Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol dros y tair blynedd nesaf.
b. Sicrhau bod gweithgareddau awyr-agored yn cael eu cynnwys ym mhob rhaglen "Ysgol Iach".
c. Datblygu "gwobr awyr-agored".
d. Rhestru'r cysylltiadau rhwng "gweithgareddau antur" ysgolion a chlybiau cymunedol er mwyn sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogi ymhellach ac er mwyn gwreiddio gweithgareddau awyr-agored fel darpariaeth gymdeithasol a hamdden hirdymor.
e. Mewn cydweithrediad â chlystyrau priodol o ysgolion, datblygu cyfleoedd cystadleuol mewn chwaraeon detholedig (hynny yw cyfeiriannu, hwylio, canŵio, beicio mynydd ac yn y blaen).
f. Darparu cyngor, cefnogaeth mentor a hyfforddiant staff i glystyrau ysgolion i ategu a chefnogi gofynion cwricwlaidd, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer Cardiau Dysgu Awyr-agored OEAP a datblygu adnoddau.

<u>Partneriaid Posibl</u>

- Awdurdodau Addysg Lleol
- PESS, 5x60 swyddogion a chydlynwyr Campau'r Ddraig
- Ysgolion
- Canolfannau awyr-agored
- Clybiau cymunedol
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Gwobr Dug Caeredin
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Cynnal a Gwasanaethau Cynghori Addysg Gorfforol
- Panel Cynghorwyr Addysg Awyr-agored
- Urdd Gobaith Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri

4. Datblygu marchnata effeithiol ar gyfer gweithgareddau awyr-agored a gwaith y Bartneriaeth fel gweithgarwch hamdden iach a chynhyrchiol.

Gellir ystyried chwaraeon fel cynnyrch ac mae angen marchnata delweddau yn gadarnhaol. Mae chwaraeon yn digwydd mewn amgylchedd cymhleth a chystadleuol lle mae angen dulliau cynnil a modern er mwyn denu plant a phobl ifanc.

a. Cynnal y gwefannau presennol
b. Cynnal a datblygu papur newydd digidol a'i ddosbarthu trwy'r rhestr bostio sy'n parhau i dyfu.
c. O fewn y wefan bresennol hybu canllawiau ac arferion gorau.
d. Hybu cysylltiadau gyda chlybiau cymunedol o fewn amgylchedd cwricwlaidd yr ysgol.
e. Sicrhau bod buddiannau ehangach gweithgareddau awyr-agored (cymdeithasol, meddyliol, diwylliannol, sgiliau bywyd) yn cael eu hybu o fewn yr ysgol a'r gymuned.
f. Sicrhau bod gweithgareddau awyr-agored yn cael eu cynnwys ym meysydd cynllunio strategol Plant, Pobl Ifanc, Iechyd a Chymunedau.
g. Datblygu "rhaglen llysgenhadon" i hybu chwaraeon awyr-agored o fewn ysgolion a chymunedau.
h. Sefydlu cysylltiadau gydag adrannau cysylltiadau cyhoeddus asiantaethau cenedlaethol

<u>Partneriaid Posibl:</u>

- Awdurdodau Lleol
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Eryri Bywiol
- Byrddau Iechyd Lleol
- Partneriaethau Plant ac Iechyd
- Sefydliad Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri

5. Datblygu model o ddarparu a mentora partneriaethau awyr-agored cymunedol y gellir eu darparu mewn cymunedau ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r Bartneriaeth wedi ennill profiad unigryw a gwybodaeth sylweddol y gellid ei defnyddio i ymestyn yr hawl i weithgareddau awyr-agored trwy Gymru. Er gwaethaf manteision daearyddol yr ardal, byddai modd dyblygu'r profiadau presennol ar lefel sylfaenol. Y Bartneriaeth sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i'r galw sy'n cael ei greu mewn ardaloedd eraill.

a. Sefydlu meini prawf sylfaenol ar gyfer pob "camp" a'r ffordd y gellir eu cyflwyno mewn amrywiaeth o wahanol amgylcheddau daearyddol a chymdeithasol.
b. Sefydlu canllawiau arferion da i gefnogi datblygu partneriaeth, datblygu clybiau, cefnogaeth gwirfoddolwyr, mynediad i gyfleusterau naturiol ac yn y blaen.
c. Dynodi a chydgysylltu gydag ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn hybu a mentora datblygiad Partneriaethau.

<u>Partneriaid Posibl:</u>

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Canolfannau awyr-agored
- Clybiau
- Gwasanaeth Cynghori Addysg
- Awdurdodau Lleol

6. Hybu cyflogaeth mewn gweithgareddau awyr-agored fel gyrfa bosibl i drigolion Cymru.

Trwy wreiddio gyrfa mewn gweithgareddau awyr-agored fel dewis hyfyw i bobl leol gellid sicrhau bod y sector yn hyfyw yn y tymor hir ac ar yr un pryd yn cadw diwylliant unigryw yr ardal.

a. Mewn cydweithrediad ag asiantaethau cenedlaethol, hybu gweithgareddau awyr-agored trwy sioeau teithiol, fforymau a phrofiad gwaith.
b. Creu cofrestr / cronfa ddata o gyflogwyr “gweithgareddau awyr-agored”.
c. Datblygu canolfan ddysgu awyr-agored yng Ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â SkillsActive.
d. Darparu cefnogaeth mentoriaid i gyflogwyr er mwyn sefydlu a chynnal safonau.
e. Sefydlu cysylltiadau mentora.
f. Cefnogi Cynllun Prentisiaeth Fodern ar gyfer hyfforddwyr awyr-agored yn y Llwybrau Dysgu Ôl 14.

<u>Partneriaid Posibl:</u>

- SkillsActive
- Darparwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach
- Ysgolion
- Canolfannau awyr-agored
- Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol
- Gyrfa Cymru
- Yr Adran ar gyfer Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Grŵp Strategol Economaidd Gogledd Orllewin Cymru

7. Datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn gweithgareddau awyr-agored er mwyn cefnogi datblygiad diwylliannol y sector.

Mae mwynhau a gwerthfawrogi'r amgylchedd awyr-agored yn tanlinellu'r diwylliant lleol sydd wrth wraidd parhad tymor hir y sector. Pobl leol yw'r rhai gorau i ddehongli a mynegi'r diwylliant lleol.

a. Datblygu a hybu cronfa ddata o arweinyddion a hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith.
b. Datblygu a hyrwyddo terminoleg Gymraeg gweithgareddau awyr-agored mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith.
c. Datblygu cymwysterau a defnyddiau arferion gorau yn ddwyieithog mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith.
d. Datblygu a hybu cyrsiau (cymwysterau / cyfarwyddiadau) trwy gyfrwng y Gymraeg.
e. Darparu cefnogaeth i glybiau a chanolfannau i ddatblygu dealltwriaeth ddiwylliannol a dwyieithog.

Partneriaid Posibl:

- Bwrdd yr Iaith
- Urdd Gobaith Cymru
- Mentrau Iaith Cymru
- Prifysgol Cymru, Bangor
- Awdurdodau Lleol
- Cyngor Chwaraeon Cymru (is-grŵp yr iaith Gymraeg)

7. Y Camau Nesaf

Mae'r strategaeth hon yn dangos y llwybr i'r Bartneriaeth am y 5 mlynedd nesaf. Dylai'r strategaeth fod yn ddeinamig, gan ymateb i newidiadau a chyfleoedd. Nid yw'r amcanion strategol wedi eu naddu i'r graig fel na ellir byth mo'u newid, ond dyma'r camau a fydd yn arwain at sefydlu amgylcheddau strategol.

Ni ellir sefydlu pob un o'r amgylcheddau strategol ar unwaith. Er mwyn sicrhau'r canlyniad mwyaf effeithiol bydd yn rhaid i Weithrediaeth y Bartneriaeth ystyried y materion canlynol yn flynyddol:

1. Adolygu'r cynnydd ers y flwyddyn ddiwethaf
2. Penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod
3. Dyrannu cyllid er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir
4. Dynodi rhaglenni, a fydd yn cynnwys nifer o brosiectau, gyda phartneriaid cyllido
5. Penderfynu ar feini prawf llwyddiant (ansoddol a meintiol) a rhaglen fonitro ar gyfer canlyniadau a deilliannau.
6. Penderfynu ar "gynllun gweithredu blynyddol" a fydd yn cynnwys tasgau yn cyfateb i amcanion strategol a fydd yn cyfrannu at sefydlu'r amgylcheddau strategol.

Bydd yn rhaid i'r Bartneriaeth fod yn glir i ba raddau y bydd yn ymwneud â'r gwahanol feysydd gwaith, a sut y bydd yn ymgysylltu â'i phartneriaid cyllido yn y meysydd hynny er enghraifft gwaith cwricwlaidd ac anghwricwlaidd. Trwy weithredu mewn nifer o amgylcheddau cyllidol mae'r risg yn cael ei ddosbarthu'n ehangach ond mae'n rhaid i'r partneriaid cyllido gael y sicrwydd bod eu cyfraniad yn canolbwyntio ar y materion sydd i fod i gael eu cyllido.

Mae'r Bartneriaeth yn anelu at sicrhau bod mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau awyr-agored o genhedlaeth i genhedlaeth, gan gyfrannu at wella iechyd a sefyllfa gymdeithasol pobl Cymru. Er mwyn cyflawni'r newidiadau hynny mae angen buddsoddiad ac ymrwymiad.

"Os byddwn yn dal i wneud yr un peth ag yr ydym yn ei wneud, byddwn yn dal i gael yr un peth ag sydd gennym".

Mehefin 2008